



Y PROSIECT YMHOLI PROFFESIYNOL CENEDLAETHOL

ADRODDIAD TERFYNOL YSGOL GYMRAEG CASNEWYDD 2019-2020

Penderfynon ni edrych ar asesu ffurfiannol gan ei fod yn rhan annatod o'r egwyddorion addysgeg, Cwricwlwm i Gymru, y safonau proffesiynol, ac felly yn ganolog i'n gweledigaeth ni fel ysgol. Daeth hwn yn sylfaen cryf i'n staff wrth gynllunio ynghyd â'r 4 Diben.

Er ein bod ni wedi ymchwilio a dechrau trafod strategaethau cwestiynu ac asesu effeithiol, roedd dal angen monitro'r sefyllfa a gofyn: oedd ein newidiadau yn rhy arwynebol ac oedd dealltwriaeth ddigonol gan y staff o'r strategaethau effeithiol er mwyn gweld effaith yng nghynnydd y dysgwyr? Roedd hwn, felly, yn sbardun clir i'r llwybr ymholi a fydd yn rhoi'r cyfeiriad nesaf i ni fel ysgol.

Ein cwestiwn oedd: sut gall Asesu ar gyfer Dysgu cynorthwyo dysgwyr wrth iddynt ddod yn fwy annibynnol yn eu dealltwriaeth o gynnydd.

Wrth drafod, daeth i'r amlwg fod methodoleg ansoddol yn angenrheidiol i'r gofynion. Yn sgil hyn, cynnal grwpiau ffocws oedd y ffordd orau ymlaen er mwyn rhoi sail wybodus i'r effaith ar gwestiynu ac ymateb ers ein newidiadau ym mis Medi o safbwynt yr UDRh a'r staff addysgu eraill. Trafodwyd hefyd fod angen i'r ffocws fod ar gwestiynu yn lle edrych ar asesu ffurfiannol yn ei gyfanrwydd, er mwyn sicrhau dyfnder.

Recordiwyd dau grŵp ffocws – un gyda'r UDRh (Pennaeth, Arweinydd CS, Arweinydd CA2, Arweinydd Medrau a Dirprwy); un yn cynnwys 6 athro amrywiol o ran profiad, oedran, cefndir a datblygiad.

Er mwyn rhyddhau 6 aelod o'r staff dysgu, trefnwyd sesiwn ganu ysgol gyfan yn y Neuadd. Roedd trafodaeth y grŵp wedi para 25 munud ac roedd pob aelod wedi cyfranogi yn dda ac yn hyderus gydag enghreifftiau a syniadau.

Er mwyn cynnal y grŵp ffocws gyda'r UDRh, defnyddiwyd cyfarfod UDRh ar ôl ysgol. Trafododd y grŵp am 35 munud, eto gyda phawb yn cyfranogi gydag enghreifftiau a syniadau am sut i ymestyn neu symud ymlaen.

Roedd ymatebion y staff a'r UDRh yn galonogol dros ben. Gwelir gwahaniaeth yn y ffordd roedd athrawon yn meddwl wrth gynllunio ac felly roedd y cwestiynu yn y gwersi yn fwy pwrpasol. Roedd hwn hefyd yn cael effaith bositif ar ymateb y plant wrth ail-ddrafftio.

Ein gobaith ym mis Chwefror 2020 oedd parhau gyda'r ymholiad. Roedden ni'n teimlo fod yno trywydd clir i ni ddilyn fel ysgol:

- Er bod systemau asesu ffurfiannol hyd yn hyn yn llwyddiannus gyda'r athrawon, beth yw barn y dysgwyr?
- Edrych yn ogystal ar gwestiynu ac ymateb ysgrifenedig effeithiol.
- Cyd-weithio fel clwstwr wrth ymholi a darganfod beth sy'n gweithio'n dda.

Cyflwynwyd yr ymholiad i'r clwstwr ac fe benderfynwyd defnyddio asesu mewn prosiect arsylwi penaethiaid y clwstwr. Gan ganolbwyntio'r arsylwadau a'r drafodaeth



oedd yn dilyn ar asesu ffurfiannol, daeth nifer o bwyntiau diddorol i rannu ymysg y penaethiaid. Cyflawnwyd y rhan fwyaf o arsylwadau ysgolion cyn gorfod cau lawr ar gyfer Covid-19.

Pwynt pwysig dysgais - er bod 'ymholiad' ac 'ymchwil' yn eiriau sydd yn gallu ofni, nid ydynt orfod fod yn bethau cymhleth. Gall ymholiadau fod yn syml a thyfu gyda hyder. Nid oes angen fod yn athro academiaidd er mwyn i hwn fod yn weithred bwrpasol.

Fel ysgol, dysgon ni bod ein systemau a'n syniadau yn arfer dda a bod yna dyfnder a dealltwriaeth i'r hyn a drafodwyd a weithredwyd. Dysgon ni ein bod ni ar y trywydd cywir wrth ddechrau'n fach ac adeiladu i fyny cam wrth gam.

Roedd yna elfennau mwy heriol wedi codi yn y trafodaethau:

Roedd modelu strategaethau yn cymryd amser ar y dechrau wrth i blant ddod i adnabod prosesau newydd;

Weithiau gall symleiddio strategaethau ar gyfer y plant lleiaf fod yn heriol;

Gall sicrhau cysondeb ar draws yr ysgol fod yn heriol.

Byddwn yn sicr yn argymhell ymholiad proffesiynol i fy nghydweithwyr ond gan gadw'r pwyntiau yma yn flaengar:

- Meddyliwch a thrafodwch o fewn yr ysgol am beth sy'n bwysig i chi - beth sydd angen amser ac ymchwil i symud yr ysgol ymlaen o ran eich targedau ysgol- peidiwch ddilyl eraill neu wneud rhywbeth er mwyn 'ticio'r blwch'.
- Cadwch bethau'n syml, peidiwch or-gynllunio neu geisio gwneud gormod o dan yr amodau amser/staffio yn eich ysgol chi.
- Rhwch ffocws ar elfen benodol – peidiwch fod yn rhy benagored - er mwyn sicrhau dyfnder a safon.
- Rhwch amser i'r cyfranogion edrych ar y cwestiynau a meddwl ymlaen llaw.
- Meddyliwch am y foeseg o flaen llaw.
- Byddwch yn greadigol wrth ryddhau aelodau staff – mae arian mor brin.
- Byddwch yn onest gyda'ch canlyniadau ac yn barod i deimlo siom – ni ellir symud a datblygu os ydych chi'n anwybyddu gwiredh anghyfyddus.